TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC National Foundation Diploma in Engineering (Electrical) Level 3

Yn gryno

Byddwch yn dysgu sgiliau peirianneg drydanol ac electronig trwy gwblhau prosiectau ac aseiniadau a fydd yn seiliedig ar sefyllfaoedd gweithle realistig.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych yn gadael yr ysgol gyda graddau TGAU da

... Ydych eisiau dilyn llwybr gwahanol i'r llwybr Safon Uwch traddodiadol

... Ydych yn dymuno mynd i'r brifysgol neu ddilyn prentisiaeth

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn astudio unedau a fydd yn cynnwys:

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Iechyd a diogelwch yn y gweithle peirianneg
Cyfathrebu ar gyfer technegwyr peirianneg
Egwyddorion trydanol ac electronig
Mathemateg ar gyfer technegwyr peirianneg
Egwyddorion dyfeisiadau a chylchedau electronig a'u defnydd
Technoleg drydanol
Gwaith gosod trydanol
Adeiladu a defnyddio systemau digidol
Chwilio am ddiffygion electronig
Egwyddorion electroneg analog a'u defnydd
Nodweddion peiriannau trydanol a'u defnydd
Prosiect peirianneg
Dewis a defnyddio rheolyddion rhaglenadwy

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng aseiniadau, adroddiadau, profion byr, gwaith ymarferol a gwaith portffolio. Bydd pob aseiniad yn cynnwys gwahanol dasgau a gaiff eu graddio fel Pasio, Teilyngdod neu Ragoriaeth. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Peirianneg Drydanol neu Electronig (180 credyd)

Gweithgareddau Sgiliau (i'ch helpu i symud yn eich blaen at waith)

Mathemateg a Saesneg (os nad oes gennych Radd C mewn Mathemateg a Saesneg TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru, byddwch angen fan leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg Gradd B a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol Gradd Teilyngdod a TGAU Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf Gradd C neu uwch.

Bydd gennych ddealltwriaeth dda o Fathemateg a Gwyddoniaeth a byddwch yn mwynhau datrys problemau cymhleth yn ymwneud â dylunio cylchedau, adeiladu a diagnosio diffygion.

Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs. Bydd angen ichi allu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm, a disgwylir ichi gadw at god ymddygiad y coleg.

Beth sy'n digwydd nesaf?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gallwch astudio Peirianneg Drydanol/Electronig ar lefel prifysgol neu gwblhau prentisiaeth yn y sector hwn. Fel arall, gallwch ystyried swyddi sy'n arbenigo yn y math hwn o beirianneg.